

## Cyflawniad disgyblion 15 mlwydd oed yng Nghymru: Adroddiad Cenedlaethol PISA 2012 (Diwygiad)

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn arolwg o gyflawniad addysgol disgyblion 15 mlwydd oed mewn Darllen, Mathemateg a Gwyddoniaeth, a drefnir gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).

Cynhelir PISA bob tair blynedd. Cynhaliwyd astudiaeth PISA am y tro cyntaf yn 2000; cymerodd Gymru ran am y tro cyntaf yn 2006. Yn 2012, cafwyd canlyniadau gan 137 ysgol a 3,305 o ddisgyblion yng Nghymru. Cymerodd 65 o wledydd ran yn yr astudiaeth, gan gynnwys 34 o wledydd sy'n aelodau OECD.

### Rhesymau dros y diwygiad

Oherwydd camgymeriad yng nghynllun y fersiwn Gymraeg o'r holiadur myfyrwyr PISA 2012, mae rhan o'r wybodaeth yn ôl rhyw o fewn y sampl Cymru yn y gronfa ddata rhyngwladol PISA 2012 ar gyfer y Deyrnas Unedig yn anghywir. Nid yw effaith y gwall hwn yn ddigon mawr i gael unrhyw effaith sylweddol ar y canlyniadau PISA y DU 2012. Ond mae'r gwall yn effeithio ychydig ar rai sgorau cyffredinol ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr, a chyfrifiadau o wahaniaethau rhwng y rhywiau mewn mathemateg, gwyddoniaeth a darllen. Nid yw'r data ar gyfer yr Alban wedi'i effeithio gan y diwygiad hwn oherwydd i'r data gael ei gasglu, codio a'i ddadansoddi ar wahân.

### Prif bwyntiau

#### Mathemateg

- 469 (d) oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru, yn arwyddocaol yn is na sgôr cyfartaledd OECD o 494. 472 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2009 a 484 yn 2006.
- Yn rhyngwladol, mae'r perfformiad mewn mathemateg mewn 38 o'r 64 o wledydd eraill sy'n cymryd rhan (ac eithrio'r DU a rhannau cydrannol o'r DU) yn arwyddocaol yn uwch nag yng Nghymru.

#### Darllen

- 480 oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru; yn arwyddocaol yn is na'r sgôr cyfartalog OECD o 496. 476 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2009 a 481 yn 2006.
- Yn rhyngwladol, roedd y perfformiad mewn darllen yn 31 o'r 64 o wledydd eraill sy'n cymryd rhan (ac eithrio'r DU a rhannau cydrannol o'r DU) yn arwyddocaol yn uwch nag yng Nghymru.

#### Gwyddoniaeth

- 491 oedd sgôr cyfartalog disgyblion yng Nghymru; yn arwyddocaol yn is na'r sgôr cyfartalog OECD o 501. 496 oedd sgôr cyfartalog Cymru yn 2009 a 505 yn 2006.
- Yn rhyngwladol, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn 25 o'r 64 o wledydd eraill sy'n cymryd rhan (ac eithrio'r DU a rhannau cydrannol o'r DU) yn arwyddocaol yn uwch nag yng Nghymru.

#### Gwahaniaeth rhwng y rhywiau

- Perfformiodd bechgyn yn well na'r merched mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ond ddim mewn Darllen.

(d) Diwygiad

Cyhoeddwyd y diwygiad hwn ar 6 Mawrth at 2015..

## **Nodyn**

Mae'r ffigurau uchod yn seiliedig ar gymharu Cymru â gwledydd eraill sy'n cymryd rhan, ac eithrio'r DU a rhannau cydrannol o'r DU. Mae hyn yn gyson â'r adroddiad cenedlaethol a gynhyrchwyd gan NFER, isod. Mae'n yn golygu bod y ffigurau a ddarparwyd ar y wefan hon ar gyfer y data 2009 yn seiliedig ar ymdriniaeth wahanol o wledydd.

## **Gwybodaeth bellach**

Mae adroddiad PISA 2012 Cymru ar gael ar wefan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER): <http://www.nfer.ac.uk/pisa> (Saesneg yn unig)

Mae adroddiad rhyngwladol PISA 2012, a gwybodaeth ychwanegol, ar gael ar wefan OECD: <http://www.pisa.oecd.org> (Saesneg yn unig)

## **Cyswllt**

Steve Hughes

Ffôn: 029 2082 5060

E-bost: [ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk)